**Gweithiwr Ymyrraeth Mewn Argyfwng,**
**Sir y Fflint,**
**Rhan-amser, Parhaol,**
**28 awr yr wythnos,**
**£24,430 y flwyddyn, pro-rata.**

- A ydych chi yn chwilio am gydbwysedd bywyd gwaith rhagorol?
- A fyddech yn hoffi 25 diwrnod o wyliau cyflogedig (sy'n cynyddu i 30 diwrnod), gyda chyfle i brynu/gwerthu mwy o wyliau blynyddol?
- Derbyn cyfraniadau pensiwn cyflogwr hyd at 8%.
- Ymuno â chynllun Beicio i'r Gwaith.
- Derbyn talebau gofal llygaid.
- Cael pecyn mamolaeth rhagorol a llawer o fuddion cwmni eraill.
- Prydau am ddim i staff

## Os felly, fe allem ni fod yn berffaith i'n gilydd….

## Sut yr ydym yn gweithio

Mae Tai ClwydAlyn yn ddarparwr tai a gwasanaethau cefnogi cysylltiedig cyfeillgar i deuluoedd sydd wedi hen sefydlu ac sy'n cael ei barchu ar draws Gogledd Cymru. Mae popeth a wnawn yn seiliedig ar ein gwerthoedd o **Ymddiriedaeth, Caredigrwydd a Gobaith** a'n cenhadaeth **Gyda'n gilydd i drechu tlodi.**

## Beth fydda' i'n ei wneud ac am beth yr ydym yn chwilio?

Mae Cymorth i Ferched ClwydAlyn yn rhoi gwasanaethau arbenigol, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ar sail gwybodaeth i ferched, dynion a phlant sy'n profi neu sydd wedi profi, pob ffurf ar gam-drin domestig, gan gynnwys ymddygiad gorfodol ac yn rheoli trwy orllewin Sir y Fflint.

Nod darpariaeth allestyn Cymorth i Ferched ClwydAlyn yw gwella ac ychwanegu at fywydau'r rhai sydd wedi goroesi, trwy ymateb i anghenion, dymuniadau ac eisiau merched, dynion a phobl ifanc sydd wedi dioddef cam-drin domestig a/neu reolaeth orfodol sy'n dymuno aros yn eu cartrefi eu hunain.

Ar hyn o bryd mae Cymorth i Ferched ClwydAlyn yn darparu gwasanaethau fel llety diogel mewn argyfwng (lloches), rheoli argyfwng cychwynnol, cefnogaeth benodol i blant a phobl ifanc, cefnogaeth allestyn yn y gymuned, cefnogaeth deithiol, cefnogaeth iechyd meddwl arbenigol, Cynghori tymor byr, yn canolbwyntio ar ddatrysiad, hwyluso rhaglenni adfer, fel y Rhaglen Rhyddid, Perchenogi fy Mywyd, a'r Pecyn Offer cyfun Adfer o Gam-drin Domestig i Oedolion Plant a Phobl Ifanc (DARTK) Hope2recovery a hyfforddiant Space a digwyddiadau codi ymwybyddiaeth, aelodau gweithredol o dimau amlddisgyblaeth (Hyb Help Cynnar/MARAC), gwasanaeth argyfwng 3 haen tu allan i oriau, ar y cyd â'r llinell gymorth Byw Heb Ofn.

## Am bwy yr ydym yn chwilio:

- Bydd gennych brofiad neu werthfawrogiad o weithio gyda phobl sydd wedi profi Cam-drin Domestig
- Profiad a/neu werthfawrogiad o gefnogi unigolion gydag anghenion cefnogaeth cymhleth.
- Empathi â merched, dynion, merched ifanc a phobl ifanc sy'n profi Cam-drin Domestig.
- Dangos gallu i weithio gyda'r rhai sydd wedi goroesi mewn ffordd lawn gwybodaeth, sy'n grymuso, ac yn cefnogi, i sicrhau eu diogelwch, a'u llesiant emosiynol, corfforol a chymdeithasol.
- Ceisio dod â thrais ar bob ffurf i ben.
- Profiad a/neu werthfawrogiad o Ddiogelu (oedolion a phlant)
- Profiad a/neu werthfawrogiad o weithio mewn sefyllfaoedd heriol a llawn risg.
- Profiad a/neu werthfawrogiad o gyfle cyfartal a darparu gwasanaethau i atal gwahaniaethu, gan roi cydnabyddiaeth gref o gydraddoldeb ac amrywiaeth yn y sector.
- Arwain ar ein gwerthoedd gan ymgorffori Diogelu, Risg ac Iechyd a Diogelwch ym mhopeth a wnewch.
- Y gallu i weithio heb gyfarwyddyd yn ogystal ag yn rhan o dîm.
- Bod a dull hyblyg a rhagweithiol wrth gefnogi ein cleientiaid a'ch tîm.
- Arwain trwy esiampl, gan ddangos ein gwerthoedd, ymddygiadau a'r Cod Ymddygiad.
- Bod yn atebol am eich gweithredoedd eich hun.
- Mae'r rôl hon yn gofyn am hyblygrwydd ynghyd ag unigolion brwdfrydig, llawn cymhelliant a chreadigol.
-

**Sylwer mai i ferched yn unig y mae'r swydd hon yn agored (ac eithrio dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 Atodlen 9, Rhan 1)**

**Disgrifiad swydd ar gael os gofynnir amdano.**

**Ar gyfer y rôl hon bydd arnoch angen gwiriad Trylwyr gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, y byddwn ni'n talu amdano.**

**Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 29 Rhagfyr 2023. Gall y dyddiad hwn newid gan ddibynnu ar nifer yr ymgeiswyr.**

Os oes gennych ddiddordeb yn y swydd hon ac y byddech yn hoffi sgwrsio ymhellach, cysylltwch, rhowch alwad i Lindsay Birrell, Cydlynydd Cymorth i Ferched ar 07776476895 neu 01352 712150.

**I ymgeisio anfonwch fynegiant o ddiddordeb yn nodi pam y byddech yn hoffi ymgeisio, gyda'ch CV, at peopleteam@clwydalyn.co.uk.**

Rydym bob amser yn ymdrechu i wella ein harferion recriwtio ac efallai y byddwn yn anfon e-bost atoch yn gofyn i chi am adborth a'ch barn am y profiad recriwtio hefo ni, os byddai'n well gennych i ni beidio â chysylltu â chi, amlygwch hyn yn ystod y broses ymgeisio.